

Rheolau cynllun taliadau terfynol a chrynodeb o ymatebion i'n rheolau cynllun taliadau drafft

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae pwerau newydd a ddarperir gan Ddeddf Dŵr 2014 yn caniatáu i ni bennu rheolau codi tâl newydd y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr¹ gydymffurfio â hwy. Ym mis Medi 2015 gwnaethom ymgynghori ar ein rheolau drafft ar gyfer cynlluniau taliadau². Gwnaethom hefyd ymgynghori ar syniadaeth a oedd yn amlygu parthed rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu a threfniadau arbennig.³ (Taliadau cyfanwerthu yw taliadau ar gyfer manwerthwyr mewn perthnas â gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol).

Cyhoeddir y ddogfen hon ochr yn ochr â'n rheolau cynllun taliadau terfynol. Mae'n rhoi crynodeb o ymatebion i'n ymgynghoriad ar daliadau mis Medi, ein hystyriaeth o'r ymatebion hyn ac unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n rheolau drafft a'n gofynion o ran gwybodaeth.

¹ Gweler atodiad 1 ar gynlluniau taliadau a'r fframwaith cyfreithiol newydd.

² Mae cynllun taliadau yn ddatganiad cyfreithiol o daliadau'r cwmni a'r telerau cysylltiedig, sy'n berthnasol i'r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid.

³ Mae'r term 'taliadau cyfanwerthu' yn cyfeirio at daliadau ar gyfer manwerthwyr parthed gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol.

Cynnwys

Cyhoeddiad rheolau cynllun taliadau terfynol	3
A1 Crynodeb o newidiadau i'n rheolau cynllun taliadua drafft a gofynion o ran gwybodaeth	5
A2 Ymatebion i ymgynghoriad ar reolau cynllun taliadau ar gyfer 2016-17 a datblygiadau i'r dyfodol	
A3 Cwestiynau'r ymgynghoriad	24
A4 Rhestr ymatebwyr	25

Cyhoeddi'r rheolau cynllun taliadau terfynol

Ar 1 Tachwedd 2015, diwygiwyd Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) gan adran 16 Deddf Dŵr 2014 (WA14) er mwyn newid y ffordd yr ydym yn goruchwyllo cynlluniau taliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (cwsmeriaid manwerthu). Disodlodd adran 16 y gofyniad i gynlluniau taliadau cwmnïau dŵr⁴ gael eu 'cymeradwyo' gan Ofwat gyda phwerau i Ofwat i bennu rheolau codi tâl, y mae'n rhaid i gynlluniau taliadau gydymffurfio â hwy.

Ym mis Medi cyhoeddodd [Ymgynghoriad ar reolau cynlluniau taliadau ar gyfer 2016-17 a datblygiadau i'r dyfodol](#) ("ein hymgynghoriad codi tâl mis Medi"). Yn yr ymgynghoriad hwn gwnaethom gynnig cyfres o reolau codi tâl a fyddai'n berthnasol i gynlluniau taliadau o 2016-17. Gwnaethom hefyd gyflwyno syniadaeth a oedd yn amlygu parthed rheolau ynglŷn â thaliadau cyfanwerthu a threfniadau arbennig y bwriadwn ymgynghori arnynt yn fwy eang yn ystod y gwanwyn nesaf.

Yn y ddogfen hon rydym yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'n ymgynghoriad codi tâl mis Medi yn ogystal â'n hystyriaeth o'r ymatebion hyn. Rydym wedi gwneud mân newidiadau i'n rheolau cynlluniau taliadau drafft - rydym wedi dileu rheol 25 a oedd yn ymwneud â thariff diofyn dibreswyl a rheol 27 cysylltiedig (sy'n eithrio cwmnïau bach o reol 25). Mae'r newidiadau hyn wedi eu nodi mewn tabl yn yr adran ganlynol.

Yn ein hymgynghoriad codi tâl mis Medi rydym hefyd wedi nodi ein gofynion gwybodaeth i'w cyhoeddi cyn neu ochr yn ochr â chyhoeddi cynlluniau taliadau. Roedd y gofynion o ran gwybodaeth wedi'u nodi mewn atodiad i'r rheolau cynllun taliadau er cyfleustra, ond nid ydynt yn rhan ffurfiol o'r rheolau. Mae gan gwmnïau dŵr rwymedigaethau o dan amodau trwydded i ddarparu i Ofwat y wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein swyddogaethau.

Rydym wedi gwneud newid i'n gofyniad am wybodaeth A2 - gofyniad i gyflwyno datganiad o newid sylweddol mewn biliau. Bydd y gofyniad am wybodaeth ond yn berthnasol i'r 18 cwmni dŵr mwyaf. Bydd Cholderton and District Water a'r penodeion newydd wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn o ganlyniad i gyfranoled.

⁴ Rydym yn defnyddio'r term "cwmnïau dŵr" i olygu cwmnïau sy'n dal penodiadau fel ymgwymerwyr dŵr a/neu carthffosiaeth o dan bennod 1 Rhan 2 WIA91.

Yn atodiad 1 rydym yn nodi'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n rheolau cynllun taliadau drafft a'r gofyniad am wybodaeth. Yn atodiad 2 rydym yn nodi ac yn trafod yr ymatebion i'n hymgyngoriad codi tâl mis Medi.

Rydym yn cyhoeddi ein rheolau cynllun taliadau terfynol ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Gwneir y rheolau o dan adran 143 WIA91, ac felly, maent yn ymwneud â thaliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (cwsmeriaid manwerthu). Os ydym yn teimlo nad yw cynllun taliadau cwmni dŵr yn cydymffurfio â'r rheolau neu ofynion penodol eraill yna mae gennym y pŵer i gyflwyno cyfarwyddyd i'r cwmni dŵr.

Rhaid i'n rheolau cynllun taliadau roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau codi tâl a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU (yn ymwneud â chwmnïau dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yn ymwneud â chwmnïau dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru). Mae'r ddwy lywodraeth wedi ymgynghori ar eu canllawiau perthnasol (gweler [Ymgynghoriad ar Ganllawiau Codi Tâl i Ofwat](#) Llywodraeth y DU a [chanllawiau codi tâl i Ofwat](#) Llywodraeth Cymru). Nid yw Llywodraeth y DU wedi gosod y canllawiau codi tâl yn y Senedd.

Mae'r WA14 hefyd yn cyflwyno pwerau i ni bennu rheolau codi tâl pewn perthynas â mathau eraill o daliadau. Yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf bwriadwn ymgynghori ar gasgliad o reolau codi tâl yn ymwneud â thaliadau cyfanwerthu. Taliadau "mynediad" yw'r rhain a wneir gan gwmnïau dŵr i ddarparwyr gwasanaethau manwerthu i ddefnyddwyr terfynol. Yn yr un ymgynghoriad byddwn hefyd yn ymgynghori ar fireinio ychwanegol i'n rheolau cynllun taliadau, yn bennaf seiliedig ar reolau a diwygiadau arfaethedig a godwyd mewn ymateb i'n hymgyngoriad mis Medi ar reolau cynllun taliadau, ac fe'u trafodir isod. Yn gyfochrog rydym wedi dechrau gwaith at ddatblygu rheolau'n ymwneud â gwasanaethau cysylltiadau newydd, a disgwyliwn ymgynghori ar y rhain y flwyddyn nesaf.

A1 Crynodeb o newidiadau i'n rheolau cynllun taliadau a gofynion o ran gwybodaeth drafft

	Testun gwreiddiol	Testun a ddiwygiwyd (diwygiad mewn teip trwm)	Rhesymeg dros newid
Rheol 25 (Tariff Diofyn Dibreswyl)	Rhaid i gynllun taliadau pob ymgwymerwr perthnasol gynnwys y mathau o daliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (a adnabyddir fel tariffau diofyn) a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 6 y rhybudd a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ar 12 Rhagfyr 2014 o benderfyniad ar reolaethau prisiau o dan benodiad yr ymgwymerwr hwnnw, oni bai bod y math o daliad yn ymwneud â chytundeb gyda'r person y codir tâl arno (a adnabyddir fel trefniant arbennig).	Dilëwyd y testun yn llwyr	O gofio nad oes angen cynnig "tariffau diofyn" fel tariffau gwirioneddol yn y cynllun taliadau rydym yn dileu'r rheol er mwyn symleiddio.
Rheol 27 (Penodeion newydd)	Nid yw Rheol 0 (Tariffau Diofyn Dibreswyl) yn berthnasol i benodeion newydd na Cholderton and District Water Company Limited.	Dilëwyd y testun yn llwyr	Nid yw'r rheol yn berthnasol gan fod Rheol 25 nawr wedi ei dileu
Gofyniad am wybodaeth A1 rhan C	Mae gan y cwmni systemau a phrosesau priodol ar waith i wneud yn siŵr bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun taliadau, a gwybodaeth ychwanegol yn gywir;	(c)	Er mwyn egluro ystyr 'gwybodaeth ychwanegol'

	Testun gwreiddiol	Testun diwygiedig (diwygiad mewn teip trwm)	Rhesymeg dros newid
Gofyniad am wybodaeth A2	A2 Dylai pob ymgwymerwr roi datganiad i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn nodi unrhyw newidiadau sylweddol a ragwelir gan yr ymgwymerwr, a chyhoeddi'r datganiad, o leiaf dair wythnos cyn cyhoeddi'r cynlluniau taliadau.	Ac eithrio Cholderton and District Water a phenodeion newydd dylai pob ymgwymerwr roi datganiad i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn nodi unrhyw newidiadau sylweddol a ragwelir gan yr ymgwymerwr, a chyhoeddi'r datganiad, o leiaf dair wythnos cyn cyhoeddi'r cynlluniau taliadau.	Dilëwyd cwmnïau bach o'r gofyniad i gyflwyno asesiad effaith cymesur o ganlyniad i gyfranoled.
Gofyniad am wybodaeth A2	Yn ogystal â'r sicrwydd a nodir uchod, rhaid i ddatganiadau sicrwydd penodeion newydd gynnwys sicrwydd bod eu cynlluniau taliadau'n cynnig	Yn ogystal â'r sicrwydd a nodir yn A1 uchod, rhaid i ddatganiadau sicrwydd penodeion newydd gynnwys sicrwydd bod eu cynlluniau taliadau'n cynnig	Angen eglurhad o gofio'r newidiadau a wnaed i ofyniad A2 uchod.

A2 Ymatebion i'r ymgynghoriad ar reolau cynllun taliadau ar gyfer 2016-17 a datblygiadau i'r dyfodol

Yn yr atodiad hwn rydym yn crynhoi'r ymatebion y gwnaethom eu derbyn i'n hymgyngoriad codi tâl mis Medi a'n hystyriaeth o'r ymatebion hyn.

A2.1 Rhagymadrodd

Ar 1 Tachwedd 2015, diwygiwyd WIA91 gan adran 16 WA14 er mwyn newid y ffordd yr ydym yn goruchwyllo cynlluniau taliadau ar gyfer defnyddwyr terfynol (cwsmeriaid manwerthu). Disodlodd adran 16 y gofyniad i gynlluniau taliadau cwmnïau dŵr i gael eu 'cymeradwyo' gan Ofwat gyda phwerau i Ofwat bennu rheolau codi tâl, y mae'n rhaid i gynlluniau taliadau gydymffurfio â hwy.

Mae WA14 hefyd yn nodi bod yn rhaid i Ofwat ymgynghori ar ei reolau drafft cyn pennu rheolau cynlluniau taliadau.

Ym mis Medi 2015 cyhoeddodd [Ymgynghoriad ar reolau cynllun taliadau ar gyfer 2016-17 a datblygiadau i'r dyfodol](#). Yn yr ymgynghoriad hwn gwnaethom gyflwyno ein rheolau drafft ynglŷn â chynllun taliadau, yn ogystal ag ymgynghoriad cam cynnar ar beth syniadaeth sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â rheolau codi tâl cyfanwerthu a threfniadau arbennig.

Derbynion 26 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn cynnwys ymatebion gan y 18 cwmni dŵr mwyaf, Llywodraeth Cymru, penodeion newydd, Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater) a rhanddeiliaid eraill (gweler adran A4).

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y cyfan yn gefnogol i gyflwyniad rheolau ac ni wnaethant fynegi materion o bwys mewn perthynas â mwyafrif y rheolau arfaethedig, ac eithrio dwy reol.

Y rheol gyntaf yw 'rheol 8', sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr gynnal asesiad effaith cymesur pan fydd biliau'n cynyddu gan fwy na 5% nominal dros y flwyddyn flaenorol. Cytunodd ymatebwyr bod sefydlogrwydd biliau yn bwysig ond gwnaethant gwestiynu'r rhesymeg dros drothwy unffurf a'r ffaith bod y trothwy wedi'i osod mewn termau nominal. Rydym yn trafod ymatebion yn ymwneud â'r rheol hon o dan ein hymatebion i gwestiwn 1 a chwestiwn 3 isod.

Gwnaeth cwmnïau dŵr hefyd gwestiynu'r gofyniad cysylltiedig i gyhoeddi datganiad o newidiadau tâl sylweddol dair wythnos cyn cyhoeddi cynllun taliadau. Rydym yn trafod y mater hwn o dan ein hymateb i gwestiwn 6.

Yr ail yw 'rheol 21', sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynllun taliadau nodi sut y cyfrifir unrhyw ddisgownt i daliadau carthffosiaeth i gwsmeriaid sy'n dangos eu bod wedi lleihau'n sylweddol swm y dŵr wyneb sy'n draenio i garthffos gyhoeddus o'u heiddo neu egluro pam nad oes darpariaeth o'r fath. Mae cwmnïau dŵr yn ystyried y rheol hon yn newid pwysig o'r egwyddorion codi tâl presennol sy'n gofyn am ymgynghoriad, ystyriaeth gywir o'r manteision a fwriedir a mwy o amser ar gyfer gweithredu. Rydym yn trafod ymateb yn ymwneud â'r rheol hon o dan ein hymateb i gwestiwn 1 isod.

Yn ogystal ag ymgynghori ar ein rheolau cynllun taliadau drafft a gofynion am wybodaeth, cyflwynodd ein hymgynghoriad codi tâl mis Medi rai cynigion cychwynnol ynglŷn â rheolau codi tâl ar gyfer taliadau cyfanwerthu a threfniadau arbennig. Dywedom y byddem yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn fwy manwl yn ystod tymor y gwanwyn 2016 er mwyn pennu rheolau ar gyfer 2017-18. Felly, nid ydym wedi ymateb mewn manylder i unrhyw sylwadau penodol ynglŷn â'r rheolau arfaethedig ar gyfer taliadau cyfanwerthu a threfniadau arbennig a godwyd mewn ymateb i'n hymgynghoriad codi tâl mis Medi.

Mae adran A2 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob un o'r deg cwestiwn a ofynwyd yn ein hymgynghoriad codi tâl mis Medi. Mae adran A3 yn cynnwys rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae adran A4 yn cynnwys rhestr o'r ymatebwyr, ac mae copïau o'r [ymatebion](#) ar gael ar ein gwefan.

A2.2 Crynodeb o'r Ymatebion

C1 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau drafft ar gyfer 2016-17 sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 2? A oes yna unrhyw reolau eraill yr ydych chi'n credu ddylai gael eu cynnwys?

A2.2.1 Dehongliad (rheol 5)

Awgrymodd un ymatebwr y dylid defnyddio'r term 'cartref' yn hytrach na 'preswyl' yn y rheolau, yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir yn y drwydded. Roedd ymatebwr arall yn dadlau bod gan fformiwla Mogden, fel y'i diffinnir yn y rheolau, 'y potensial i lesteirio arloesedd a gallai cwmnïau fod yn gyndyn i ddatblygu elfennau newydd o'r fformiwla Mogden (e.e. ffosffad neu amonia) er mwyn adlewyrchu'n well gostau trin elifiant yn ei ranbarth. Awgrymodd yr un ymatebwr hefyd y dylid ehangu'r diffiniad o "gwasanaeth" fel "yn cynnwys cyflenwi dŵr" i "yn cynnwys cyflenwi dŵr **a darparu gwasanaethau carthffosiaeth, yn cynnwys darpariaeth draenio dŵr wyneb a phriffyrdd**".

Ein hymateb: Mae'r term 'eiddo preswyl' fel y'i diffinnir yn ein rheolau cynllun taliadau wedi ei gymryd, mewn gwirionedd o drwyddedau cwmnïau dŵr. Rydym yn defnyddio'r term yng nghyd-destun taliadau a asesir (rheol 18), lle mae'n adlewyrchu'n fwy agos y maen prawf cymhwyster ar gyfer taliadau a asesir, fel y diffinnir yn WIA91, na'r term 'cartref'.⁵ Rydym yn teimlo bod defnydd y term 'eiddo preswyl' yn safonol ac ni fydd yn creu unrhyw ddryswch diangen.

Rydym am adael fformiwla Mogden heb ei newid o gofio bod rheol 22 ar daliadau elifiant masnachol yn dweud yn glir y gellir defnyddio 'amrywiad rhesymol' o'r fformiwla. Byddwn, fodd bynnag, yn adolygu addasrwydd y fformiwla fel rhan o'n ymgynghoriad yng ngwanwyn 2016 ac yn ystyried a fydd angen ei diwygio.

Byddwn hefyd yn cadw'r diffiniad o "wasanaethau" yn unol â'r rheolau drafft ond byddwn yn ystyried ymhellach addasrwydd y newid arfaethedig i'r diffiniad ac a fydd angen ei ddiwygio yn y dyfodol.

A2.2.2 Sefydlogrwydd biliau (rheol 8)

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r rheol hon. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r trothwy nominal 5%. Trafodwn hyn o dan gwestiwn 3 isod. Codwyd hefyd fater y cwmpas i benodeion newydd gael eu heithrio o'r gofyniad i gynnal asesiad effaith cymesur.

Mewn ymateb, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd ymgysylltu â chwsmeriaid yr effeithir arnynt drwy gyflwyno unrhyw gynnydd sylweddol mewn biliau mewn modd sensitif, er enghraifft, drwy ddefnyddio trefniadau pontio llwybr llithro.

Ein hymateb: Rydym yn ystyried bod y gofyniad i gael asesiad effaith cymesur a nodi isafswm trothwy ar gyfer cynnydd nominal mewn biliau o 5% yn parhau'n gyffredinol briodol ac o fudd i gwsmeriaid.

Rydym yn ail-bwysleisio mai dim ond pwynt sbardun ar gyfer asesiad effaith cymesur yw'r trothwy nominal 5% a'n bod yn disgwyl i gwmnïau ymgysylltu â'u cwsmeriaid a mabwysiadu strategaethau trin a lliniaru priodol (o bosibl yn cynnwys trefniadau

⁵ Mae'r term 'eiddo preswyl' yn golygu eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel annedd neu a fwriedir ar gyfer defnydd o'r fath; mae'r term cartref yn cyfeirio at eiddo y mae ei brif ddefnydd yn gartref.

pontio llwybr llithro) hyd yn oed pan fo biliau'n codi gan lai na 5%, pan hynny'n briodol.

Er ein bod yn derbyn y gall penodeion newydd brofi achosion o gynnydd sylweddol fel ymateb uniongyrchol i newidiadau i daliadau cwmni presennol, nid ydym yn ystyried bod eithrio penedion newydd rhag cynnal asesiad effaith cymesur pan fyddant yn cynnig cynyddu eu taliadau gan fwy na 5% er budd gorau eu cwsmeriaid. Rydym yn disgwyl i benodion newydd ystyried canlyniad maint yr effaith ac ymgysylltu â'u cwsmeriaid fel sy'n briodol. Nid ydym felly wedi ein hargyhoeddi y byddai eithriad o'r fath er budd gorau cwsmeriaid.

A2.2.3 Cyhoeddi (rheolau 9-11)

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru yn cyhoeddi eu cynlluniau taliadau yn Gymraeg a Saesneg er mwyn bodloni safonau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Dywedodd hefyd bod angen i gynlluniau taliadau gael eu hysgrifennu mewn Cymraeg clir a Saesneg plaen fel y gall cwsmeriaid eu deall.

Ein hymateb: Rydym yn cytuno y dylai cynlluniau taliadau fod yn glir a thryloyw, ac rydym yn disgwyl i gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru gyhoeddi eu cynlluniau taliadau yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid ydym wedi diwygio ein rheolau drafft i adlewyrchu hynny.

A2.2.4 Egwyddorion ar gyfer penderfynu symiau taliadau (rheolau 12 i 17)

Mynegodd dau ymatebwr bryder gyda rheol 15, sy'n dweud y dylai gwahaniaethau rhwng taliadau ar gyfer defnyddiwr bach dŵr a defnyddiwr mwy dŵr ond cael eu seilio ar wahaniaethau cost cysylltiedig â defnydd gwahaniaethol o asedau'r rhwydwaith, gwahanol nodweddion brigo, gwahanol lefelau gwasanaeth a/neu wahanol gywirdeb mesur.

Nododd yr ymatebwyr y gallai fod rhesymau eraill i gyfrif am wahaniaeth tâl rhwng defnyddwyr dŵr mawr a bach, megis gwahaniaethau o ran lefel costau manwerthu cysylltiedig â gweithredwr y farchnad, lefel cynhyrchu ac ati. Roeddent o'r farn y dylid newid y rheol er mwyn ei gwneud hi'n glir nad yw'r rhestr o resymau ar gyfer gwahaniaethau yn un gyflawn.

Cododd tri chwmni dŵr a charthffosiaeth faterion gyda rheol 17, sy'n dweud bod yn rhaid i daliadau am wasanaethau carthffosiaeth adlewyrchu'r gwahanol lwyth llygryddion rhwng

preswyl a dibreswyl a rhwng draeniad dŵr wyneb budr, draeniad priffyrdd ac elifiant masnachol.

Roedd United Utilities Water yn dadlau bod angen i daliadau am wasanaethau carthffosiaeth roi ystyriaeth i fwy na dim ond llwyth llygryddion. Nododd fod llwyth brig yn arbennig o bwysig wrth ddyrannu costau rhwng dŵr budr a dŵr wyneb a draeniad priffyrdd. Roedd Dŵr Hafren Trent yn dadlau bod gan ddefnyddwyr preswyl a dibreswyl bach lwyth llygryddion tebyg iawn ac, oherwydd eu safle ar y rhwydwaith, defnydd asedau a llwyth, y gallai taliadau i gwsmeriaid carthffosiaeth mawr adlewyrchu llwyth llygryddion is.

Ein hymateb: Mae Rheolau 12 i 17 yn adlewyrchu egwyddorion codi tâl sy'n bodoli'n barod y dylai cwmnïau eisoes fod yn cydymffurfio â hwy.

Mae rheol 15 yn benodol berthnasol i wahaniaethau mewn taliadau sy'n gysylltiedig â chyfaint y dŵr a gyflenwir neu a ryddheir. Er enghraifft, mae'n berthnasol i wahaniaethau tâl rhwng defnyddwyr preswyl bach a defnyddwyr preswyl mawr. Mae hefyd yn berthnasol i wahaniaethau tâl rhwng defnyddwyr preswyl a dibreswyl, ond dim ond mewn perthynas â chyfaint y dŵr a gyflenwir neu a ryddheir. Nid yw'r rheol yn atal adennill costau cysylltiedig â gweithredwr y farchnad gan gwsmeriaid dibreswyl yn unig, ac nid yw chwaith yn atal taliadau rhag adlewyrchu'r gwahanol gostau manwerthu ar gyfer gwasanaethu gwahanol gwsmeriaid.

Dywed rheol 17 bod yn rhaid i gwmnïau ystyried y gwahanol lwyth llygryddion pan fyddant yn pennu taliadau carthffosiaeth ar gyfer y gwahanol elfennau neu fathau cwsmeriaid a nodir yn y rheol. Nid yw'r rheol yn gwahardd ystyried ffactorau perthnasol eraill, megis llwyth.

Rydym yn cydnabod y gallai cyfaint fod yn ysgogwr pwysig wrth ddyrannu costau rhwng gwasanaethau ac rydym yn annog cwmnïau i adlewyrchu hyn. Mae'n bosibl bod cyfaint a llwyth llygryddion yn chwarae rôl tra gwahanol wrth benderfynu ar daliadau, gyda chyfaint yn ysgogi dyraniad cost rhwng gwasanaethau a llwyth llygryddion yn ysgogi cyfraddau uned.

A2.2.5 Taliadau a asesir (rheol 18)

Awgrymodd dau gwmni dŵr y gellid gwneud rheol 18 yn fwy clir fel ei bod yn berthnasol i eiddo preswyl yn unig.

Ein hymateb: Mae rheol 18 yn ei gwneud hi'n glir ei bod yn berthnasol i unrhyw un sydd â hawl i gyflwyno hysbysiad tâl mesur o dan adran 144A WIA91. Mae adran 144A yn ei thro yn berthnasol i "eiddo lle mae gan berson gartref ynddo, neu yn rhan ohono". Rydym o'r farn bod y rheol fel y'i drafftwyd yn gywir a chlr.

Hefyd, golyga eiddo preswyl, fel y diffinnir yn y drwydded, “unrhyw eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel annedd neu ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd o'r fath”. Gallai o bosibl fod amgylchiadau lle nad yw Adran 144A yn cydfynd â'r diffiniad ar eiddo preswyl, fel yn achos eiddo gwag, lle nad yw'n gartref i berson, ond fe'i bwriedir ar gyfer defnydd o'r fath. Felly, rydym yn parhau i gyfeirio at adran 144A yn y rheol hon.

A2.2.6 Taliadau dŵr gwastraff (rheolau 20-21)

Roedd pryderon ymatebwyr, yn gyffredinol, yn canolbwyntio ar ein cynnig bod ymgwymerwyr carthffosiaeth yn darparu ad-daliadau rhannol ar gyfer lleihad sylweddol mewn draeniad dŵr wyneb neu'n egluro pam nad oes darpariaeth o'r fath (rheol 21). Y prif bryderon oedd:

- Dim digon o amser i roi'r rheolau ar waith ar gyfer 2016-17, gan yr ystyriwyd hwn yn newid mawr o'r trefniadau presennol;
- yr angen i adolygu'r cynigion hyn cyn eu gweithredu, er mwyn deall yn well y manteision posibl, ac, yn gysylltiedig â hyn, y gallai brysio cyflwyniad ein cynigion arwain at ganlyniadau gwael;
- yr angen i egluro ystyr “lleihad sylweddol” mewn perthynas â mesurau lliniaru y gallai cwsmeriaid eu defnyddio i leihau eu draeniad dŵr wyneb; a'r
- angen i gwmnïau gyfiawnhau yn eu cynllun taliadau pam nad ydynt yn darparu ad-daliadau rhannol.

Roedd CCWater yn gefnogol i'r rheolau drafft. Nododd bod anallu i hawlio ad-daliad rhannol yn achos cwyn ar gyfer rhai cwsmeriaid sydd wedi cymryd camau i leihau'r swm o ddŵr wyneb y maent yn ei ryddhau i'r garthffosiaeth. Roedd yn ystyried y dylai cwmnïau weithredu cynlluniau lwfans rhannol priodol lle gellir cyflawni hyn heb greu cost weinyddol ychwanegol sylweddol i gwsmeriaid yn gyffredinol.

Mae hefyd yn ystyried y gallai bod mantais pe bai'r rheolau yn nodi isafswm gofyniad o ran y cyfnod ar gyfer ôl-ddyddio ad-daliadau draenio dŵr wyneb lle nad oedd y cwsmer na'r cwmni cyn hyn yn ymwybodol nad oedd yr eiddo wedi ei gysylltu ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Ein hymateb: Mae ystyriaethau amgylcheddol yn gyffredinol, a hyrwyddo agwedd gynaliadwy ac arloesol tuag at ddraenio yn benodol, yn themâu pwysig yng nghanllawiau codi tâl Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i Ofwat. Mae'r canllawiau yn cefnogi ad-daliadau i gwsmeriaid nad yw eu dŵr wyneb yn draenio i'r rhwydwaith.

Mae canllaw codi tâl Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud “y dylai ymgymrwyr geisio gwell gwybodaeth ar y mater hwn”.

Fel yr amlinellir yn ymgynghoriad codi tâl mis Medi, rydym yn ystyried bod yr arfer presennol o gwmnïau'n cynnig taliadau wedi'u lleihau i gwsmeriaid sy'n dangos nad oes ganddynt unrhyw ddŵr wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus yn ddeuaidd ac amhriodol. Mae nifer o fanteision posibl i leihau draeniad dŵr wyneb, yn cynnwys lleihau perygl llifogydd carthffosiaeth, gohirio buddsoddiadau mewn seilwaith carthffosydd cyhoeddus, lleihau biliau cwsmeriaid a rhoi mwy o ddŵr yn ôl i'r amgylchedd. Mae parhau gyda dull deuaidd hefyd yn cyfaddawdu'n ddifrifol unrhyw gymhellant i osod suddfannau er mwyn lleihau'n rhannol ddraeniad dŵr wyneb.

Credwn hefyd nad ein lle ni yw rhagnodi'r term "lleihau'n sylweddol" yn y rheol hon nac yn unman arall. Yn hytrach, y cwmnïau sydd yn y sefyllfa orau i ddiffinio hwn mewn modd amddiffynadwy, a bod yn atebol am eu cynllun taliadau.

A2.2.7 Elifant masnachol (rheol 22)

Dywedodd Southern Water ei fod wedi cyflwyno ‘strwythur codi tâl band sefydlog er mwyn adennill costau monitro cydymffuriad ag elifiant masnachol’ yn ddiweddar. Mae'n cydnabod y gallai geiriad y rheol ganiatáu'r dull hwn, ond mae'n awgrymu er eglurder y gallai'r rheol ddweud y ‘gall rhai elfennau o gostau elifiant masnachol gael ei adennill drwy ffyrdd eraill heblaw am fformiwla Mogden.’

Ein hymateb: Rydym o'r farn, yn unol â'r drafft, bod y rheol yn glir nad oes angen defnyddio fformiwla Mogden cyn belled â bod y tâl wedi ei bennu ar sail 'amrywiad rhesymol o fformiwla Mogden neu sail y gellir ei ddangos i fod yn fwy cost effeithiol'. Nid yw diwygiad arfaethedig Southern Water i'r rheol yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â gwyradau a ganiateir oddi wrth fformiwla Mogden. Er enghraifft, ni ddiffinnir yn dda yr hyn a olygir gan ‘rhai elfennau’ a bydd ‘gall... gael ei adennill drwy ffyrdd eraill heblaw am fformiwla Mogden’ yn gallu ‘caniatáu’ i unrhyw ddull codi tâl i gael ei ddefnyddio. Rydym yn ystyried na fyddai hyn yn ddymunol fel rheol codi tâl. Fel y gwnaethom ddweud uchod yn ein hymateb i gwestiwn 1, byddwn yn ystyried addasrwydd y fformiwla fel rhan o'n hymgyngoriad y flwyddyn nesaf ac a oedd angen diwygio'r fformiwla neu'r geiriad.

A2.2.8 Tariffau cymdeithasol / Taliadau draenio consesiynol (rheol 23)

Nododd Southern Water y dylai'r gofyniad i ddatgan a yw'r cwmni wedi cynnwys darpariaeth i leihau taliadau i grwpiau cymunedol mewn perthynas â

draenio dŵr wyneb ai peidio ond bod yn berthnasol yn unig i gwmnïau sy'n defnyddio dull codi tâl seiliedig ar arwynebedd safle ar gyfer draenio dŵr wyneb.

Nododd CCWater lle bo cynlluniau consesiynol yn bodoli o dan y rheol hon, dylai'r cynllun taliadau naill ai nodi meini prawf cymhwyster neu nodi lle y darperir y wybodaeth hon.

Ein hymateb: Gall pob cwmni, os ydynt yn codi tâl am ddraenio dŵr wyneb ar sail arwynebedd safle ai peidio, gynnig tâl is i grŵp cymunedol tra'n cadw mewn cof y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog o dan adran 43 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Rydym felly'n ystyried y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol i bob cwmni, waeth beth fo'i ddull ar gyfer codi tâl.

Rydym hefyd yn ystyried y cynnig gan CCWater bod rhinwedd i gynnwys meini prawf cymhwyster ar gyfer cynlluniau consesiynol a byddwn yn ei ystyried ar gyfer ymgynghori y flwyddyn nesaf.

A2.2.9 Amseroedd a dulliau talu (rheol 24)

Roedd CCWater yn ystyried y dylai rheol 24 fod yn fwy rhagnodol. Yn hytrach na'i gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau taliadau gynnwys darpariaethau sy'n rhoi 'dewis rhesymol ynglŷn ag amser a dulliau talu' i gwsmeriaid, dylai'r rheol fod yn rhagnodol ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr ag isafswm gofynion.

Ein hymateb: Rydym yn disgwyl i gwmnïau gymryd perchnogaeth o'u cynlluniau taliadau er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y sector heb i ni fod yn rhy ragnodol.

Er gwaethaf hynny, byddwn yn ystyried y darpariaethau a awgrymwyd gan CCWater yng ngoleuni'r dystiolaeth briodol ac, os yn briodol, byddwn yn ymgynghori ar newid i'r rheol hon yn flwyddyn nesaf. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid ydym yn cynnig newid y rheol ar gyfer y flwyddyn codi tâl nesaf.

A2.2.10 Tariffau Diofyn Dibreswyl (rheol 25)

Nododd dau gwmni y gallai rheol 25 ar dariffau diofyn dibreswyl gael ei dehongli fel gofyniad i nodi'r tariffau diofyn manwerthu mewn tabl ar wahân yn ein cynllun taliadau. Fodd bynnag, gan nad oes rheidrwydd ar gwmnïau i gynnig tariffau diofyn fel tariffau yn eu cynllun taliadau (yn hytrach, defnyddiwyd tariffau diofyn i greu rheolaethau refeniw cyfartalog fesul grŵp tariff), awgrymwyd y gallai hyn lesteirio arloesedd tariff ac y gallai beri dryswch i gwsmeriaid, sydd â diddordeb yn y tariffau sy'n ymarferol yn berthnasol iddynt hwy.

Ein hymateb: Fe ddywedom yn ein hymgyngghoriad codi tâl mis Medi mai diben y rheol hon oedd sicrhau bod tariffau cwmnïau'n gyson â'u rheolaeth prisiau ac nad oes angen i'r rheol atal cwmnïau rhag cynnig taliadau eraill i gwsmeriaid dibreswyl cyn belled na chynigir y tariff diofyn hefyd.

O gofio nad ydym yn disgwyl i gwmnïau gynnig yr union "dariffau diofyn" a nodir ym mhenderfyniadau terfynol PR14 (o gymharu â chydymffurfio â'r rheolaeth referniw cyfartalog ar gyfer pob math cwsmer "tariff diofyn"), rydym yn cytuno y byddai dileu'r rheol hon

(25) a rheol 27 cysylltiedig (eithrio cwmnïau bach o reol 25) yn symleiddiad synhwyrol.

Bydd amod trwydded B yn dal i'w gwneud hi'n ofynnol i godi taliadau mewn modd a gyfrifir orau i gydymffurfio â'r rheolaethau prisiau y mae Ofwat wedi eu pennu. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth prisiau dibreswyl mewn perthynas â gweithgareddau manwerthu. Pan fydd cwmnïau wedi mabwysiadu gwahanol strwythurau tariff, bydd hi'n angenrheidiol iddynt gysoni'r strwythurau tariff hynny i fathau cwsmeriaid yn y llythyrau penderfyniad terfynol er mwyn sefydlu cydymffurfiaid.

A2.2.11 Penodeion newydd (rheol 26 drafft, diwygiwyd i 25)

Fe wnaeth penodai newydd ddadlau nad oedd y gofyniad i benodeion newydd gyhoeddi eu cynllun taliadau ar 22 Chwefror - tair wythnos wedi i'r cwmni presennol gyhoeddi ei gynllun taliadau ei hun - yn rhoi digon o amser i benodeion newydd gan fod eu taliadau'n ddibynnol ar daliadau'r cwmni presennol. Dadl y penodai newydd oedd y byddai diwygio'r rheol i'w gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi cynllun taliadau penodeion newydd dim hwyrach 1 Mawrth yn fuddiol.

Ein hymateb: Rydym yn ystyried bod cyfnod o dair wythnos rhwng cyhoeddi cynllun taliadau'r cwmni presennol a chynllun taliadau'r penodai newydd yn parhau'n briodol. I'r graddau y gallai penodeion newydd elwa o eglurder cynharach ar daliadau'r cwmni presennol, gallent ymgysylltu â'r cwmni presennol i gael eglurder o'r fath. Gallai gohirio cyhoeddiad cynllun taliadau penodeion newydd fod yn andwyol i gystadleuaeth manwerthu dibreswyl.

A2.2.12 Rheolau ychwanegol a gynigwyd gan ymatebwyr

Awgrymodd nifer o ymatebwyr reolau ychwanegol mewn gwahanol feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gynnwys yn y cynllun taliadau fanylion ynglŷn â hawl cwsmeriaid i ddewis mesurydd neu ar eu hagwedd ynglŷn ag eiddo gwag.

Ein hymateb: Rydym yn croesawu awgrymiadau ymatebwyr ynglŷn â rheolau ychwanegol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod y rheolau newydd a awgrymir yn hanfodol ar gyfer cynlluniau taliadau'r flwyddyn nesaf. Fe ddywedom yn ein hymgyngoriad, gan y bydd ein rheolau cynllun taliadau ar gyfer 2016-17 yn cael eu cyhoeddi'n gymharol hwyr yn 2015, na fyddem yn cyflwyno newidiadau sylfaenol i'n hegwyddorion codi tâl presennol ac mae hi'n parhau felly.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y byddwn yn pennu rheolau codi tâl, disgwylw'n i'r rheolau esblygu dros amser. Byddwn felly'n ystyried y rheolau ychwanegol a awgrymir ar gyfer eu cynnwys mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

C2 Beth yw'r ffordd orau i fabwysiadu taliadau draenio dŵr seiliedig ar arwynebedd safle? Pa wersi ellir eu dysgu o weld sut mae cwmnïau wedi symud i'r dull hwn hyd yma?

Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno gyda'r egwyddor o godi tâl seiliedig ar arwynebedd safle ar gyfer draenio dŵr wyneb, roedd pob un yn cydnabod y byddai heriau o ran gweithredu hyn. Er mwyn helpu i liniaru'r heriau hyn, amlygodd ymatebwyr yr angen i:

- ddatblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol, yn arbennig ar gyfer y rheini yr effeithir yn anffafriol arnynt, sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir lliniaru taliadau draenio dŵr wyneb.
- caniatáu ffenestr weithredu resymol er mwyn cyflwyno newidiadau'n raddol, o bosibl dros nifer o flynyddoedd; a
- sicrhau bod cynllun consesiynol Defra yn cael ei gymhwyso ar unwaith.

Nodwyd hefyd gynnydd mewn tryloywder a mwy o gysondeb yn y fethodoleg codi tâl a ddefnyddir (ar draws pob cwmni) fel meysydd lle mae craffu pellach yn briodol.

Roedd gan rai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth nad oedd wedi mabwysiadu dull codi tâl seiliedig ar arwynebedd safle ar gyfer draenio dŵr wyneb bryderon ynglŷn â:

- gweithrediad cynllun gorfodol cynamserol, nid yn lleiaf oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth yn dangos effeithiolrwydd y cynnig;
- costau gweithredu sylweddol posibl (ar gyfer manteision dadleuol); a'r
- cwmpas ar gyfer cymorth wedi'i dargedu i fod yn fwy effeithiol mewn lliniaru draenio dŵr wyneb.

Amlygodd CCW yr angen i roi ystyriaeth briodol i faint yr effeithiau ac chyfnod priodol ar gyfer gweithredu. Amlygodd cwmni arall yr angen am gysondeb mewn taliadau ar draws pob cwmni.

Ein hymateb: Rydym yn nodi'r camau sydd wedi eu hawgrymu er mwyn sicrhau mabwysiadu llwyddiannus daliadau draenio dŵr wyneb seiliedig ar arwynebedd safle. Fel yr ydym wedi dweud yn flaenorol, rydym yn ystyried bod taliadau sy'n adlewyrchu costau yn briodol. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad polisi cysylltiedig â chodi tâl am ddraenio dŵr wyneb roi ystyriaeth ofalus i'r costau, manteision a maint yr effeithiau. Byddwn yn ystyried y ffordd orau i ddatblygu'r dysgu o brofiad y pedwar cwmni sydd wedi symud i godi tâl seiliedig seiliedig ar arwynebedd safle.

C3 A ydych chi'n cytuno gyda'n trothwy arfaethedig ar gyfer cynnydd 'Sylweddol' biliau? Os nad ydych, a oes tystiolaeth ar gyfer trothwy mwy addas? A sut gellir asesu hyn ar gyfer gwahanol fathau o gwsmeriaid?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a wnaeth sylw am y mater hwn yn ystyried bod y trothwy nominal 5% arfaethedig, ar isafswm, yn dderbyniol, o gofio'r amgylchedd chwyddiant isel. Lle mynegwyd pryderon, roeddent yn ymwneud â'r angen i gael:

- trothwy sy'n rhoi ystyriaeth i chwyddiant; a/neu
- trothwy dwy ran, un sy'n cynnwys canran ac isafswm gwerth mewn punnoedd (e.e. £10).

Ein hymateb: Rydym yn ystyried bod y trothwy nominal 5% yn parhau'n fras yn briodol gan fod:

- tystiolaeth yng nghynlluniau busnes cwmnïau yn awgrymu y gallai cynnydd biliau nominal uwch na 3%-6% arwain at leihad mewn cwsmeriaid yn gweld eu cynlluniau'n dderbyniol.
- roedd y rhan fwyaf o gynlluniau busnes a gyflwynwyd gan gwmnïau yn yr adolygiad cyfnodol diwethaf (PR14) yn cynnig cyfyngu ar gynnydd biliau cyfartalog i RPI (neu lai) yn y cyfnod rheolaeth presennol; a
- bod dadansoddiad yn dangos bod cynnydd biliau blynyddol nominal o rhwng 4% a 6% wedi bod yn gyffredin ar draws y sector dros y 25 mlynedd diwethaf.

Rydym yn dal heb ein hargyhoeddi ynglŷn â theilyngdod pennu isafswm cynnydd mewn punnoedd, fel rhan o drothwy dwy ran. Byddai unrhyw elfen punnoedd sefydlog o fewn trothwy yn gofyn am adolygiad parhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, a fyddai'n rhoi gormod o faich gweinyddol ac, os y'i newidir, gallai greu dryswch.

Rydym wedi ymrwmo i adolygu'r trothwy 5% ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol a bydd yn cynnwys darpariaethau i gwmnïau ddefnyddio dull gwahanol y gallant ddangos fyddai'n gwasanaethau eu cwsmeriaid yn well.

C4 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd?

C5 A ydych chi'n meddwl y dylai datganiad sicrwydd Bwrdd gynnwys unrhyw beth arall i'r hyn yr ydym yn ei gynnig uchod?

Lle gwnaethant fynegi barn, cytunodd yr holl ymatebwyr y dylai cwmnïau gyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd.

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn fodlon gyda chynnwys y datganiad fel y'i cynigiwyd. Roedd Northumbrian Water o'r farn na ddylai fformat y datganiad gael ei rag-ddiffinio — cyn belled yr ymdrinnir â'r pwyntiau angenrheidiol. Mae'n dadlau y dylai'r datganiad ganiatáu i gwmnïau gynnwys gwybodaeth ychwanegol; megis eglurhad lle 'na fu cyfle i weithredu gofyniad newydd yn y cyfnod amser byr rhwng cyhoeddi'r rheolau codi tâl a'r flwyddyn codi tâl newydd'.

Roedd CCWater a Thames Water yn awyddus i'w gwneud yn ofynnol i gael cadarnhad penodol y dilynwyd y rheolau codi tâl.

Mynegodd Brigâd Dân Llundain a Tân ac Achub Dwyrain Sussex bryderon tebyg ynglŷn â chostau atgyweirio hydrant tân.

Ein hymateb: Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y gofyniad hwn. Rydym o'r farn nad yw gofyniad i gael datganiad penodol yn natganiad sicrwydd y Bwrdd bod y cynllun taliadau'n cydymffurfio â'r rheolau codi tâl yn angenrheidiol. Rydym eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael cadarnhad gan y Bwrdd Cyfarwyddwr bod y cwmni'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud â chynlluniau taliadau. Mae hyn yn awgrymu'n glir ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau. Er y gall cwmnïau ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn y datganiad sicrwydd, rhaid i gwmnïau gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ar bob adeg.

Parthed mater costau atgyweirio hydrant tân, rydym yn nodi bod pryderon tebyg wedi eu mynegi mewn ymateb i'n hymgyngoriad Towards Water2020. Rydym yn ystyried y mater hwn, a byddwn yn ymateb yn fanwl fel rhan o'n hymateb i'r ddogfen honno.

C6 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyflwyno datganiad am newidiadau sylweddol?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor, ond gyda chafeatau sylweddol. Roedd dau ymatebwr yn anghytuno'n llwyr, gan bryderu ei fod yn creu baich rheoleiddio diangen ac yn gyfystyr â dychwelyd at reoleiddio **ex-ante**. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yr amseriad yn un na ellid ei weithredu, naill ai'n rhy hwyr ar gyfer trafodaeth ystyrlon neu'n rhy gynnar i roi ystyriaeth i'r holl wybodaeth berthnasol.

Awgrymodd Northumbrian Water y dylai'r datganiad hwn, er mwyn bod yn effeithiol, gael ei gyflwyno yn haf neu hydref y flwyddyn cyn bod y taliadau newydd yn dod i rym

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau nad oedd y gofyniad i gyhoeddi'r ddogfen yn fuddiol, a gallai effeithio ar eu strategaethau trin wrth ddelio â chwsmeriaid sy'n wynebu effeithiau mawr.

Cwestiynodd penodeion newydd yr angen am ofyniad o'r fath i fod yn gymwys iddynt hwy. O gofio bod eu taliadau manwerthu wedi eu cyfyngu gan daliadau'r cwmni presennol perthnasol, ar y cyfan dylai datganiad y cwmni presennol perthnasol hefyd ymdrin â thaliadau'r penodai newydd (er y nododd SSE y gallai fod gofyniad arnynt i gyflwyno datganiad o'r fath pan fyddant yn cynllunio i gyflwyno newidiadau sylweddol i'w ffordd eu hunain o bennu taliadau, yn annibynnol ar sut y mae eu cwmnïau sy'n uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi yn pennu eu taliadau hwy).

Mae'r penodeion newydd hefyd yn tynnu sylw at fater sy'n codi ar eu cyfer hwy mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cyflwyno datganiad o'r fath. Sef, y byddai gofyn iddynt gynhyrchu datganiad o'r fath dair wythnos cyn eu cynllun taliadau yn cyd-daro â chyhoeddiad cynllun taliadau'r cwmni presennol perthnasol, sydd â dylanwad mawr ar eu taliadau, ac felly ni fydd yn gadael digon o amser iddynt baratoi a sicrhau'r datganiad.

Ein hymateb: Rydym yn derbyn efallai na fydd cyhoeddi datganiad o newidiadau sylweddol dair wythnos cyn cyhoeddi'r cynllun taliadau terfynol yn rhoi digon o amser ar gyfer trafodaeth briodol. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ymgysylltu gyda ni ynglŷn â'u taliadau mewn modd amserol waeth beth fo'r gofyniad ffurfiol. Mae gofyniad ffurfiol ar gwmnïau hefyd i ymgysylltu â CCWater ynglŷn â'u taliadau mewn modd amserol. Nodwn hefyd bod y gofyniad yn gofyn i'r datganiad gael ei gyflwyno 'o leiaf' dair wythnos cyn cyhoeddiad y cynllun taliadau. Gall cwmnïau gyflwyno'r datganiad hwn i ni mor gynnar ag y byddent yn ei weld yn addas er mwyn caniatáu amser ar gyfer trafodaeth ystyrlon.

Rydym o'r farn bod y datganiad o newid sylweddol yn rhoi sicrwydd pwysig bod cwmnïau a'u Byrddau wedi ymgysylltu â'u taliadau ac yn arbennig gydag effeithiau terfynol mawr. Mae sefydlogrwydd biliau yn bwysig i gwsmeriaid ac mae'n egwyddor ganolog yng nghanllawiau codi tâl llywodraethau Cymru a'r DU. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r gofyniad hwn ac yn ystyried a fyddai'n well ei roi yn ein fframwaith sicrwydd cwmnïau.

Mae ein gofyniad bod cwmnïau'n cyhoeddi (yn hytrach na dim ond cyflwyno i ni) y datganiadau o newidiadau yn unol â'n gweledigaeth a rennir ar gyfer y sector i fod yn agored a thryloyw, lle mae pob cwmni'n atebol i ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'i holl randdeiliaid.

O ran y mater yn ymwneud â phenodeion newydd, byddwn yn diwygio'r testun fel bod y gofyniad i gyflwyno datganiad o newid sylweddol yn eithrio penodeion newydd a Cholderton and District Water. Rydym yn teimlo bod hyn yn gymesur.

C7 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r cynigion sydd wedi eu cynnwys ym mhennod 4? A oes yna unrhyw reolau neu faterion eraill eraill yr ydych chi'n credu y dylid ymgynghori arnynt y flwyddyn nesaf?

Roedd cytundeb cyffredinol bod y materion a nodwyd gennym ar gyfer eu hadolygu ymellach yn rhesymol ac y bydd cynnydd mewn tryloywder yn rhoi manteision. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r amserlen ar gyfer rhoi'r rheolau newydd ar daliadau cyfanwerthu ar waith, a'r effaith ar sefydlogrwydd biliau.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r materion penodol a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn rhywle arall yn y ddogfen hon.

Ein hymateb: Rydym wedi ymrwymo i bennu rheolau codi tâl cyfanwerthu er mwyn gwella lefel a math y wybodaeth a fydd ar gael i ddeiliaid trwydded manwerthu cyn agor y farchnad ymhellach ar gyfer cwsmeriaid manwerthu dibreswyl yn Lloegr ym mis Ebrill 2017. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar ein cynigion y flwyddyn nesaf ac wrth bennu ein rheolau byddwn yn rhoi ystyriaeth i faint yr effaith posibl.

C8 A fyddai'n ymarferol a/neu'n ddymunol i gynnwys yr holl daliadau nad sy'n rhai sylfaenol yn y cynllun taliadau cyfanwerthu?

Roedd cefnogaeth eang i egwyddor y rheol hon. Roedd ymatebwyr yn dadlau na ddylai taliadau nad sy'n rhai safonol a thaliadau'r busnes sydd heb ei benodi neu heb ei gwmpasu gan y rheolaeth prisiau gael eu cyhoeddi yn y cynllun taliadau cyfanwerthu.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd:

- bod angen diffinio isafswm rhestr o daliadau ansylfaenol sy'n rhaid eu cyhoeddi;
- rhaid ystyried a fydd yr un rheolau yn ddefnyddiol yng nghyd-destun cynllun taliadau manwerthu; ac
- ar gyfer taliadau nad sy'n rhai safonol sydd ddim ar y cynllun, bod angen ystyried a fyddai'n briodol i ddatgan y gallai taliadau fod yn briodol ac y darperir dyfynbrisiau ar gais, yn seiliedig ar gostau adennill.

Ein hymateb: Byddwn yn edrych i ddatblygu isafswm rhestr o daliadau ansylfaenol y bydd gofyn i gwmnïau dŵr gyhoeddi yn eu cynllun taliadau cyfanwerthu ar gyfer 2017.

C9 A oes gennych chi farn benodol ynglŷn â'r gofyniad i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl dim hwyrach na wythnos gyntaf mis Ionawr?

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gyhoeddiad cynnar taliadau cyfanwerthu. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellir gosod y dyddiad ar gyfer cyhoeddi tâl cyfanwerthu a dyddiad cyhoeddi datganiad o newid sylweddol, sydd wedi eu cynnig i fod yn agos i'w gilydd, fel yr un dyddiad er mwyn symlrwydd. Roedd llawer o gwmnïau dŵr yn dadlau y byddai cyhoeddi taliadau cyfanwerthu dibreswyl yn wythnos gyntaf mis Ionawr yn heriol o gofio nad yw RPI Tachwedd yn cael ei gyhoeddi cyn canol mis Rhagfyr a hefyd yr angen am sicrwydd. Roeddent yn awgrymu y byddai ail wythnos mis Ionawr yn fwy synhwyrol, ac awgrymodd rhai y dylai gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun taliadau manwerthu ym mis Chwefror. Roedd Northumbrian Water yn dadlau os yw taliadau cyfanwerthu dynodol yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref, yna nid yw'n gweld budd i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu ym mis Ionawr yn hytrach na dechrau mis Chwefror.

Fe wnaeth penodeion newydd gwestiynau pa mor hawdd oedd gweithredu'r cynnig o gofio rhyngweithiad eu taliadau gyda chyhoeddiad taliadau gan eu cwmni presennol perthnasol.

Ein hymateb: Gallai argaeledd gwybodaeth gynnar ar daliadau cyfanwerthu wella gweithrediad y farchnad fanwerthu dibreswyl, llywio penderfyniadau mynediad

ac felly mae o fudd i gwsmeriaid. Byddwn yn archwilio tystiolaeth bellach ynglŷn â manteision cyhoeddi cynnar i ddeiliaid trwydded arfaethedig, a phennu ein rheolau gan roi ystyriaeth i'n polisi ynglŷn â chyhoeddi taliadau cyfanwerthu dangosol.

Ar 15 Hydref cyhoeddum [hysbysiad gwybodaeth](#) a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r 18 cwmni dŵr mwyaf gyhoeddi eu cynllun taliadau cyfanwerthu ar eu gwefan dim hwyrach na 14 Ionawr 2016. Dywedom hefyd y byddwn yn ymgynghori ar drefniadau i'r dyfodol parthed cwmnïau bach (Cholderton and District Water a'r penodeion newydd) o ran cyhoeddi taliadau cyfanwerthu.

C10 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig amlinellol y dylai taliadau cyfanwerthu mynegol gael eu cyhoeddi ym misoedd Gorffennaf a Hydref?

Roedd gwrthwynebiad eang i'r amserlen a gynigiwyd ar draws y diwydiant. Roedd y cwmnïau o'r farn bod risgiau a baich rheoleiddiol ychwanegol yn y broses. Un o'r rhesymau dros hyn oedd yr angen i gael taliadau wedi eu cytuno gan y byrddau priodol dair gwaith mewn cyfnod amser byr. Roedd hefyd faterion yn ymwneud â chywirdeb posibl y data ym mis Gorffennaf, a fyddai'n achosi amrywiadau i gyhoeddiad mis Hydref ac yn drysu manwerthwyr a chwsmeriaid sydd wedi eu hysbysu o daliadau posibl.

Nododd ymatebwyr hefyd y gallai methu diwygio taliadau ar gyfer gwybodaeth newydd oni bai am RPI rhwng mis Hydref a mis Chwefror gael goblygiadau i'w WRFIM.

Argymhellodd ymatebwyr ystod o ddewisiadau amgen yn cynnwys:

- dileu cyhoeddiad taliadau cyfanwerthu dangosol ym mis Gorffennaf, oni bai y rhagwelir newidiadau sylweddol i strwythur codi tâl cyfanwerthwyr; a
- chaniatáu i'r taliadau cyfanwerthu terfynol ym mis Ionawr adlewyrchu'r holl ffactorau newydd ac eithrio RPI i newid taliadau rhwng mis Hydref a mis Ionawr

Ein hymateb: Mae cyhoeddi gwybodaeth am daliadau yn gynnar yn bwysig er mwyn sicrhau sefyllfa deg yn y farchnad fanwerthu. Rydym yn cydnabod bod cyfaddawd rhwng gwybodaeth gynnar ar daliadau a dibynadwyedd gwybodaeth o'r fath. Bydd angen i ni gael y cydbwysedd cywir a byddwn yn parhau i ystyried yr ymatebion yr ydym wedi eu derbyn ynglŷn â'r mater hwn. Byddwn hefyd yn ymgynghori ymhellach ar y mater hwn yn ein hymgyngoriad ar reolau codi tâl cyfanwerthu yn nhymer y gwanwyn 2016.

Nodwn hefyd, o gofio'r broses y mae gofyn i ni ei dilyn ar gyfer pennu rheolau codi tâl, ein bod yn annhebygol o bennu rheolau codi tâl yn ddigon cynnar y flwyddyn nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer cyhoeddiad cynnar taliadau cyfanwerthu cyn agor y farchnad fanwerthu yn 2017. Bwriadwn felly ofyn am y wybodaeth hon drwy hysbysiad gwybodaeth y byddwn yn ei anfon ym mis Chwefror neu fis Mawrth 2016.

A3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r rheolau drafft ar gyfer 2016-17 sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 2? A oes yna unrhyw reolau eraill yr ydych chi'n credu ddylai gael eu cynnwys?

C2 Beth yw'r ffordd orau i fabwysiadau taliadau draenio dŵr seiliedig ar arwynebedd safle? A pha wersi ellir eu dysgu o weld sut mae cwmnïau wedi symud i'r dull hwn hyd yma?

C3 A ydych chi'n cytuno gyda'n trothwy arfaethedig ar gyfer cynnydd 'Sylweddol' biliau? Os nad ydych, a oes tystiolaeth ar gyfer trothwy mwy addas? A sut gellir asesu hyn ar gyfer gwahanol fathau o gwsmeriaid?

C4 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyhoeddi datganiadau sicrwydd eu Bwrdd?

C5 A ydych chi'n meddwl y dylai datganiad sicrwydd Bwrdd gynnwys unrhyw beth arall i'r hyn yr ydym yn ei gynnig uchod?

C6 A ydych chi'n cytuno gyda'n dewis presennol o gwmnïau'n cyflwyno datganiad am newidiadau sylweddol?

C7 A oes gennych unrhyw farn benodol ynglŷn â'r cynigion sydd wedi eu cynnwys ym mhennod 4? A oes yna unrhyw reolau neu faterion eraill eraill yr ydych chi'n credu y dylid ymgynghori arnynt y flwyddyn nesaf?

C8 A fyddai'n ymarferol a/neu'n ddymunol i gynnwys yr holl daliadau nad sy'n rhai sylfaenol yn y cynllun taliadau cyfanwerthu?

C9 A oes gennych chi farn benodol ynglŷn â'r gofyniad i gyhoeddi taliadau cyfanwerthu terfynol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl dim hwyrach na wythnos gyntaf mis Ionawr?

C10 A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig amlinellol y dylai taliadau cyfanwerthu mynegol gael eu cyhoeddi ym misoedd Gorffennaf a Hydref?

A4 Rhestr ymatebwyr

A4.1 Cwmnïau dŵr

1. Anglian Water
2. Dŵr Cymru
3. Sutton and East Surrey Water
4. Dŵr Hafren Trent
5. South West Water
6. Southern Water
7. Thames Water
8. Northumbrian Water
9. United Utilities
10. Wessex Water
11. Yorkshire Water
12. Affinity Water
13. Bristol Water
14. Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
15. Portsmouth Water
16. Sembcorp Bournemouth Water
17. South East Water
18. South Staffordshire Water

A4.2 Penodeion newydd

1. Independent Water Networks Ltd
2. SSE

A4.3 Arall

1. Llywodraeth Cymru
2. Cyngor Defnyddwyr Dŵr
3. Business Stream
4. Gwasanaethau Tân ac Achub Dwyrain Sussex
5. Brigâd Dân Llundain
6. Cyngor Sefton

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ein gweledigaeth yw bod yn reoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, gan weithio'n flaenllaw, a herio ein hunain ac eraill i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio. Tachwedd 2015

© Hawffraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawffraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawffraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.